MAWRTH 2026

# Cadw Prydain i Weithio

## Y Stori Hyd Yma

# Crynodeb o Adroddiad ac Uchelgais Cadw Prydain i Weithio

## Y Sefyllfa Bresennol

Mae Prydain yn wynebu argyfwng brys o ran anweithgarwch economaidd a gaiff ei ysgogi i raddau helaeth gan salwch a'r rhwystrau i weithio sy'n wynebu pobl anabl.

- **Mae mwy nag 1 o bob 5 oedolyn o oedran gweithio yn ddi-waith ac nid ydynt yn chwilio am waith** a'r rheswm mwyaf cyffredin dros hyn yw problemau iechyd hirdymor**.**
- Bellach mae **2.8 miliwn o bobl yn economaidd anweithgar o ganlyniad i gyflyrau iechyd.** Mae hyn 800,000 yn fwy o gymharu â 2019, ac mae amcanestyniadau yn dangos y bydd 600,000 arall yn anweithgar erbyn 2030.
- Y **gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl anabl yw 52.8%,** sydd 29.5% yn is na phobl nad ydynt yn anabl ac mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod y bwlch hwn yn ehangu.
- **Mae hon yn broblem ddifrifol ond mae modd ei datrys.** Fodd bynnag, ni all gael ei datrys gan lywodraethau neu gyflogwyr ar eu pen eu hunain.

### Mae pawb ar eu colled o dan y system bresennol:

- Mae **unigolion** yn wynebu canlyniadau pellgyrhaeddol - gall unigolyn 22 oed sy'n gadael gwaith oherwydd salwch golli dros £1 filiwn mewn enillion gydol oes, yn ogystal â'r effaith ddifrifol ar ei lesiant yn sgil colli pwrpas a chysylltiad.
- Mae **cyflogwyr** yn colli £120 y diwrnod fesul cyflogai sy'n sâl, yn wynebu dros £11,000 o gostau recriwtio am bob cyflogai newydd a benodir yn lle cyflogai sâl, ac yn profi'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch uchaf ers 15 mlynedd - sy'n gwneud cyfanswm o £85bn y flwyddyn.
- Mae'r **wladwriaeth** yn wynebu costau anghynaliadwy o £212bn y flwyddyn (sy'n cyfateb i 7% o gynnyrch domestig gros neu bron 70% o'r holl dreth incwm a gesglir) drwy golledion o ran allbwn, taliadau lles ychwanegol, a mwy o bwysau ar y GIG.

## Yr Achosion Sylfaenol

Edrychodd Adolygiad Cadw Prydain i Weithio ar yr achosion sylfaenol yn fanwl drwy ymgysylltu â chyflogwyr, darparwyr, cyrff cynrychiadol, cyflogeion ac unigolion â phrofiadau bywyd.

### Mae angen inni fynd i'r afael â thair problem barhaus:

1. **Diwylliant o ofn** sy'n amlwg ymhlith cyflogeion ac, mewn ffordd wahanol, ymhlith cyflogwyr, yn enwedig rheolwyr llinell. Mae hyn yn creu pellter rhwng pobl ac yn atal datgeliadau diogel a chynnar, sgyrsiau adeiladol a chymorth ar yr adeg pan fo'u hangen fwyaf.
2. **Diffyg system gymorth effeithiol a chyson** i gyflogwyr a'u cyflogeion i'w helpu i reoli eu hiechyd a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl. Mae'r ffaith nad yw'r system Nodyn Ffitrwydd yn gweithio yn ôl y bwriad weithiau'n ychwanegu at y broblem hon o ddiffyg cymorth.

3. **Heriau strwythurol** i bobl anabl, sy'n creu rhwystrau i ddechrau gweithio ac aros mewn gwaith. O gymharu â chymaryddion rhyngwladol, nid oes gan y DU ysgogiadau systemig i gefnogi pobl anabl mewn gwaith, sy'n golygu eu bod yn cael eu hallgáu'n anghymesur a bod eu talentau'n cael eu gwastraffu.

## Yr Uchelgais

Nid yw'r problemau hyn yn anochel. Mae'r ewyllys i weithredu yn bodoli, yn ogystal ag adnoddau sylweddol a, thrwy gydol yr adolygiad, rydym wedi gweld elfennau o'r ateb sydd ei angen. Yr hyn sydd ar goll yw cydgysylltiad, ffocws a fframwaith cydlynol ar gyfer newid.

Ein huchelgais yw **sicrhau newid sylfaenol** o fodel lle caiff iechyd yn y gwaith ei adael, i raddau helaeth, i'r unigolyn a'r GIG, i fodel lle bydd yn dod yn **gyfrifoldeb a rennir** rhwng cyflogwyr, cyflogeion a gwasanaethau iechyd.

Mae hyn yn golygu mwy na gwariant cyhoeddus - mae'n golygu bod yn rhaid i bawb chwarae rhan gyda **chyflogwyr yn arwain, cyflogeion yn ymgysylltu** a'r **llywodraeth yn ailosod y system,** gan alluogi a chymell cyflogwyr i weithredu a sicrhau canlyniadau gwell.

## Yr Ateb

Yr agweddau allweddol ar yr ateb a amlinellir yn yr adolygiad yw:

**Sefydlu, gyda chyflogwyr a darparwyr, Cylch Bywyd Gwaith Iach** - sy'n diffinio'r arferion sy'n ysgogi'r canlyniadau gorau mewn llai o absenoldeb salwch, gwell cyfraddau dychwelyd i'r gwaith a chyfraddau cyfranogi a chadw uwch o ran pobl anabl.

**Datblygu gwell darpariaeth iechyd yn y gweithle** - gyda darparwyr ac ymarferwyr presennol, y cymorth sydd ei angen ar gyflogwyr a chyflogeion i gyflenwi'r Cylch Bywyd Gwaith Iach, gan ganolbwyntio i ddechrau ar gynlluniau newydd 'aros yn y gwaith' a 'dychwelyd i'r gwaith' o fewn y cylch bywyd, ac ar wella mynediad at gymorth.

**Adeiladu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i ategu cymhellion ar gyfer mabwysiadu** - Creu Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle (WHIU) i gydgrynhoi a dadansoddi data, ystyried cymhellion i ysgogi cyfraddau mabwysiadu, arwain gwelliant parhaus a darparu arweinyddiaeth, fel pencadlys mudiad, ar draws y system newydd.

## Ers Cyhoeddi

Adeg cyhoeddi ym mis Tachwedd, **cytunodd y Llywodraeth** i gefnogi newid ar draws y system gyfan a arweinir gan gyflogwyr o ran iechyd a chynhwysiant yn y gweithle, drwy dderbyn yr argymhellion i wneud y canlynol:

- **Lansio'r cyfnod blaengar tair blynedd:** i brofi ac adeiladu'r sail dystiolaeth ar gyfer atebion a arweinir gan gyflogwyr i ddatblygu'r Cylch Bywyd Gwaith Iach a chefnogi Darpariaeth Iechyd yn y Gweithle.
- **Sefydlu'r Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle:** i weithio fel 'pencadlys y mudiad' gan gefnogi'r blaengarwyr, datblygu tystiolaeth, ac ysgogi arloesedd.
- **Ail-weirio'r cymhellion erbyn yr Adolygiad o Wariant nesaf:** drwy adeiladu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ystyried sut i gysoni cymhellion ac ysgogi mwy i fanteisio arnynt a sicrhau canlyniadau gwell.

**A nawr, nid ydym yn aros i weithredu.** Rydym wedi symud yn syth i'r Cyfnod Blaengar ac rydym wrthi'n sefydlu'r Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle i ysgogi'r mudiad, dysgu'n gyflym, adeiladu'r dystiolaeth dros yr hyn sy'n gweithio, a'i gwneud yn bosibl i roi ateb cenedlaethol ar waith yn y blynyddoedd nesaf.

# Y Cyfnod Blaengar

## Trosolwg

Rhaglen dair blynedd yw'r Cyfnod Blaengar lle rydym yn ceisio datblygu'r atebion a nodir yn yr adolygiad drwy weithio gyda chyflogwyr, darparwyr, rhanbarthau a rhanddeiliaid ehangach i gydweithio, dysgu, arbrofi, a phrofi beth sy'n gweithio er mwyn trawsnewid iechyd a chynhwysiant yn y gweithle yn y DU.

Bydd y rhaglen yn seiliedig ar ymrwymiad cryf i sicrhau canlyniadau gwell drwy weithio mewn partneriaeth, datblygu consensws, blaenoriaethu camau gweithredu a datblygu'r sail dystiolaeth er mwyn gallu rhoi'r mentrau sy'n cael yr effaith fwyaf ar iechyd a chynhwysiant ar waith yn genedlaethol.

Caiff y cyflawniadau allweddol dros y tair blynedd nesaf eu crynhoi yn y diagram isod:

**2026**

- Datblygu'r **Cylch Bywyd Gwaith Iach yn safon i gyflogwyr**.
- **Datblygu fframwaith ffurfiol** ar gyfer Darpariaeth Iechyd yn y Gweithle o ansawdd i helpu i gyflwyno safon y Cylch Bywyd Gwaith Iach.
- **Creu Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle (WHIU)** i gydgrynhoi a dadansoddi data, arwain gwelliant parhaus a darparu arweinyddiaeth, fel pencadlys mudiad, ar draws y system newydd.
- **Sefydlu'r gofynion data** i gefnogi'r Cylch Bywyd Gwaith Iach a'r Ddarpariaeth Iechyd yn y Gweithle i gefnogi canlyniadau llai o absenoldeb salwch, gwell cyfraddau dychwelyd i'r gwaith a gwell cyfranogiad a chynhwysiant pobl anabl

**2027**

**Datblygu'r Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle** i wneud y canlynol:

- **Mireinio** Safon y Cylch Bywyd Gwaith Iach a chefnogi darpariaeth gyda rhanddeiliaid
- Ystyried sut i **ddatblygu marchnad y ddarpariaeth** i sicrhau ansawdd a chystadleuaeth
- Dechrau **cydgrynhoi data allweddol yn gyfrinachol** ar draws cyflogwyr a sectorau i roi darlun cliriach o berfformiad wrth reoli iechyd ac anabledd
- Darparu'r **sail dystiolaeth** i ddangos effaith, canlyniadau ac elw ar fuddsodiad a **datblygu argymhellion i ail-weirio'r** cymhellion i gynyddu cyfraddau mabwysiadu
- **Datblygu'r strategaeth ddata** a fydd yn sail i'r Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle yn y dyfodol

**2028**

Gweithio gyda'r Llywodraeth i:

- Sefydlu'r Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle a'r data i **lywio newidiadau polisi a mabwysiadu mentrau**
- Annog datblygiad **marchnad ddynamig ar gyfer Darpariaeth Iechyd yn y Gweithle**
- Defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth i **gefnogi'r achos dros gymhellion wedi'u targedu er mwyn ysgogi cyfraddau mabwysiadu eang** o ran y Cylch Bywyd Gwaith Iach a gwell darpariaeth iechyd yn y gweithle, gan gynnwys ar draws sectorau, rhanbarthau a chyflogwyr o wahanol faint

Gwyddom na allwn wneud popeth dros nos, ond rydym yn ceisio **symud yn gyflym** a **sicrhau bod pobl yn ein dilyn**. Felly, rydym wedi symud yn syth i Flwyddyn 1 y Cyfnod Blaengar, gan adeiladu ar y lefel uchel o ymgysylltiad a brwdfrydedd a welsom gan gyflogwyr, darparwyr a rhanbarthau.

## Gweithgarwch Blwyddyn 1 a Chynnydd Hyd Yma

Mae blwyddyn gyntaf y rhaglen yn canolbwyntio ar osod sylfeini'r mudiad, diffinio'r arferion a'r dulliau gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ysgogi canlyniadau gwell, sefydlu'r cymorth sydd ei angen ar gyflogwyr i wneud gwahaniaeth, ac adeiladu ymgysylltiad ymhlith cyflogwyr, darparwyr a rhanddeiliaid yn y DU sy'n cefnogi'r gwaith hwn.

Rydym yn canolbwyntio ar dair ffrwd waith allweddol:

| Ffrwd Waith Blwyddyn 1 | Canlyniad disgwyliedig | Dull gweithredu | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|---|
| **Datblygu'r Cylch Bywyd Gwaith Iach** | Llunio safon ddrafft i gyflogwyr | Rydym wedi lansio'r cyntaf o dri chylch o sbrintiau wyth wythnos a arweinir gan gyflogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys 6-10 o sefydliadau sy'n gweithio gyda ni i ystyried ac ateb cwestiynau allweddol am y Cylch Bywyd Gwaith Iach.<br><br>Ar ôl pob sbrint, byddwn yn cael cyfnod o waith ymgysylltu ehangach â sefydliadau Blaengar eraill a rhanddeiliaid ehangach i gasglu mewnbwn ac adborth.Caiff canfyddiadau'r sbrintiau a'r adborth a fydd yn dod i law eu cynnwys wrth ddatblygu Safon i gyflogwyr yn y DU. Bydd y gyfres gyntaf o sbrintiau yn dod i ben ym mis Ebrill gyda gwaith ymgysylltu ehangach yn digwydd ym mis Mai.<br><br>Y cwestiynau cynnar ar gyfer y sbrintiau a'r sefydliadau arweiniol yw:<br><br>**1) Atal dan arweiniad *Transport for London***<br>Beth yw'r egwyddorion allweddol ar gyfer atal yn dda?<br><br>**2) Aros yn y Gwaith dan arweiniad *Siemens***<br>Beth yw egwyddorion cynlluniau aros yn y gwaith llwyddiannus a beth mae angen i gyflogwr ei wneud i ddechrau eu rhoi ar waith?<br><br>**3) Dychwelyd i'r Gwaith dan arweiniad *Google***<br>Beth yw egwyddorion cynlluniau dychwelyd i'r gwaith llwyddiannus a beth mae angen i gyflogwr ei wneud i ddechrau eu rhoi ar waith?<br><br>**4) Cynnwys Pobl Anabl (*mewn cydweithrediad â'r Business Disability Forum*)**<br>a) Pa fesurau canlyniadau y gellir eu datblygu i ddarparu dangosyddion effeithiol o brofiadau cyflogeion anabl a chynhwysiant yn ysgogi cyfranogiad gwell? Sut y gellid mesur y rhain? | Cyflogwyr a darparwyr gofal iechyd / llesiant |

| Ffrwd Waith Blwyddyn 1 | Canlyniad disgwyliedig | Dull gweithredu | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|---|
| | | b) Beth yw'r pryderon a'r rhwystrau o safbwynt addasiadau rhesymol a pha ffactorau sy'n diffinio proses addasiadau rhesymol effeithiol? Sut y gellid cynnwys hyn mewn cynlluniau aros yn y gwaith? | |
| **Darpariaeth Iechyd yn y Gweithle** | Darpariaeth iechyd yn y gweithle ddiffiniedig i gefnogi cyflogwyr | Mae dros 40 o ddarparwyr (cyhoeddus a phreifat) yn cymryd rhan yn y gwaith cynnar hwn. Drwy sesiynau bord gron, rydym yn gweithio ar y canlynol:<br>• Diffinio rhagdybiaethau cynnar ynghylch yr hyn sy'n cefnogi darpariaeth dda (trefniadau rheoli achosion o ansawdd, mynediad cynnar at driniaeth, gwasanaethau atal a mesur)<br>• Sut i ymdrin â throsglwyddiadau rhwng llwybrau anghlinigol a chlinigol, gan gynnwys integreiddio â meddygon teulu/GIG<br>• Datblygu'r farchnad gyhoeddus a phreifat a sut i wneud darpariaeth yn fforddiadwy ac yn hygyrch.<br>Caiff y sesiynau bord gron cychwynnol hyn eu defnyddio i lywio gwaith yn y dyfodol gyda darparwyr i ddatblygu manylion y Ddarpariaeth Iechyd yn y Gweithle, gan fwydo i mewn i ffrydiau gwaith datblygu o fis Ebrill/Mai ymlaen<br>**Cysylltu â Nodiadau Ffitrwydd:**<br>Bydd y gwaith ar ddarpariaeth hefyd yn ystyried cwestiynau allweddol am sut y gellid gwella'r system Nodyn Ffitrwydd er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd i safbwyntiau cyflogwyr a mynd i'r afael â'r heriau rydym wedi clywed amdanynt.<br>• Mae'r system Nodyn Ffitrwydd bresennol yn fethiant i lawer, gyda 93% "heb fod yn ffit i weithio," sy'n ynysu cyflogeion ac yn allgáu cyflogwyr.<br>• Ein nod yw dylunio system well, gan weithio gyda sefydliadau Blaengar, sy'n seiliedig ar gynlluniau aros yn y gwaith a dychwelyd i'r gwaith cydweithredol sy'n cynnwys cyflogwyr, cyflogeion a darparwyr iechyd.<br>• Rydym yn bwriadu cyd-ddylunio, profi a gweithredu'r system hon a allai, yn y pen draw, leihau'r ddibyniaeth ar Nodiadau Ffitrwydd, gan rymuso cyflogwyr i reoli absenoldeb oherwydd salwch a galluogi meddygon teulu i ganolbwyntio ar ofal sylfaenol. | Darparwyr gofal iechyd a llesiant |
| **Gofynion data** | Gofynion data diffiniedig i | Bydd data gwell yn hanfodol i lwyddiant, ond rhaid cerdded cyn rhedeg. Mae gennym sbrint data dynodedig, dan arweiniad EDF, gyda ffocws cryf ar fesur canlyniadau. Y diben yw: | Cyflogwyr a darparwyr |

| **Ffrwd Waith Blwyddyn 1** | **Canlyniad disgwyliedig** | **Dull gweithredu** | **Pwy sy'n gyfrifol?** |
|---|---|---|---|
| | gefnogi'r cylch bywyd gwaith iach a'r ddarpariaeth iechyd yn y gweithle | • Pennu sut i fesur y Cylch Bywyd Gwaith Iach a'r Ddarpariaeth Iechyd yn y Gweithle.<br>• Ystyried sut i gydgasglu a defnyddio data gwell.<br>• Dylunio'r gofynion data a fydd yn cefnogi Cadw Prydain i Weithio ac wrth galon yr Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle (WHIU).<br>• Adeiladu'r sail dystiolaeth, darparu meincnodau cyfrinachol ac, yn y pen draw, ategu cymhellion cynyddgar i gyflymu'r broses fabwysiadu. | gofal iechyd a llesiant |

## Cyflawni drwy Ymgysylltu

Rydym wedi cael ymateb calonogol ers cyhoeddi'r adolygiad. Mae lefel yr ymgysylltiad wedi bod yn drawiadol gydag amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid yn camu ymlaen i weithio gyda ni. Mae'r ymgysylltiad hwn yn rhoi hyder inni y gallwn ysgogi newid sylfaenol ar draws marchnad lafur y DU. Mae ein dull gweithredu yn ceisio manteisio ar y canlynol:

- Mudiad sylweddol ac ymrwymedig o **sefydliadau, rhanbarthau a'r Llywodraethau Datganoledig,** sy'n gweithio gyda ni i ddatblygu a phrofi beth sy'n gweithio, gan adeiladu'r sail dystiolaeth i weithredu ar lefel genedlaethol.
- **Seilwaith rhanbarthol sefydledig** drwy Awdurdodau Maerol a Strategol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, ochr yn ochr â chymorth cydgysylltu canolog dynodedig gan yr Uned Gwybodaeth Iechyd yn y Gweithle (WHIU).
- **Trefniadau llywodraethu trawslywodraethol cadarn**, a arweinir gan gyd-gadeiryddion ar lefel weinidogol uwch ochr yn ochr â Syr Charlie, a fydd yn darparu'r trosolwg strategol a'r atebolrwydd i symud y rhaglen ymlaen

Rydym yn cydnabod her ac uchelgais yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni. Mae gwaith ac iechyd yn bynciau eang ac yn cwmpasu lefel enfawr o gymhlethdod, gydag ystod eang o randdeiliaid yn awyddus i wneud gwahaniaeth. Gan gofio hyn, rydym yn mabwysiadu'r **egwyddorion canllaw** canlynol i helpu i lywio ein gwaith a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid:

| Symlrwydd | Momentwm | Cerdded, cyn rhedeg ar y data |
|---|---|---|
| Mae ymdrin â chyflyrau, carfannau, arferion, ac amrywiadau rhanbarthol a sectorau yn creu'r potensial ar gyfer cymhlethdod mawr. | Rydym am symud yn gyflym a manteisio ar y momentwm a'r egni. | Bydd data yn hollbwysig ond mae perygl y byddant yn hynod o gymhleth. |
| **Byddwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau a nodi rhai arferion allweddol.** | **Rydym yn anelu at ddiffinio'r safon a'r fframwaith darparu o fewn 12 mis**, cyn mynd ati i adeiladu'r dystiolaeth i ail-weirio'r cymhellion. | **Rydym am ymdrin â data fesul cam**. Yn gyntaf, dysgu pa ddata sy'n cael eu casglu, yna beth sy'n gwneud mesurau da, sut a pham maen nhw'n gwneud gwahaniaeth a sut i gydgrynhoi/sicrhau eu bod yn effeithiol. |

### Ymgysylltu â Sefydliadau Blaengar

Ers mis Tachwedd, mae nifer y **sefydliadau sy'n gweithio gyda ni wedi mwy na dyblu** ac mae'r ffigur yn parhau i gynyddu, sy'n dangos yr awydd i newid a bod yn rhan o'r mudiad hwn ledled y DU. Bellach, mae **150 o sefydliadau yn gweithio gyda ni,** sy'n cyflogi tua 1.5m o gyflogeion ac yn rhychwantu 24 o ddiwydiannau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd gweithgorau sy'n cynnwys trawstoriad o'r sefydliadau hyn yn cymryd rhan yn y sbrintiau Cylch Bywyd Gwaith Iach a'r gwaith o ddatblygu'r Ddarpariaeth Iechyd yn y Gweithle. Byddant yn gweithio gyda'r Uned Gwybodaeth ar gwestiynau pwysig, gan adrodd yn ôl i'r gymuned ehangach ar adegau allweddol i brofi canfyddiadau, casglu adborth a defnyddio gwybodaeth newydd. I'r sefydliadau a fydd yn cymryd rhan, y bwriad yw cynhyrchu gwybodaeth ymarferol a rennir y gallant ei defnyddio yn fewnol, a bydd hefyd yn gyfle i lywio trafodaeth genedlaethol ar ddyfodol iechyd yn y gweithle. Mae'r rhestr ddiweddaraf o sefydliadau sydd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith hwn i'w gweld yn yr atodiad.

### Gweithio mewn Partneriaeth â'r Sefydliad Safonau Prydeinig

I sicrhau ein bod yn datblygu safon gadarn a chydnabyddedig ar draws y Cylch Bywyd Gwaith Iach, rydym yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Safonau Prydeinig. Y Sefydliad Safonau Prydeinig yw'r Corff Safonau Cenedlaethol y gellir ymddiried ynddo yn y DU ac mae ganddo 125 o flynyddoedd o brofiad o ddatblygu safonau cydnabyddedig a chredadwy mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys iechyd, diogelwch a llesiant. Mae dull gweithredu'r Sefydliad Safonau Prydeinig yn darparu proses strwythuredig a thryloyw, gan ddefnyddio barn a mewnbwn ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod y safon ganlyniadol yn cael ei datblygu drwy gonsensws ac ymgysylltiad. Rydym yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Safonau Prydeinig i integreiddio ein dull o ran y Cyfnod Blaengar â'i fethodoleg gadarn drwy gydol y flwyddyn hon. Bydd y dull cydweithredol hwn o ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu'r safon yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod adborth a gwybodaeth gan yr ystod ehangaf bosibl o randdeiliaid yn cael eu hymgorffori'n effeithiol a'u defnyddio'n eang.

### Rôl Awdurdodau Maerol a Strategol Rhanbarthol

Rydym yn cydnabod bod arweinyddiaeth ranbarthol yn hollbwysig i fudiad Cadw Prydain i Weithio am fod y rhanbarthau yn gweithio fel canolbwynt i arweinyddiaeth economaidd ranbarthol, am eu bod **mewn sefyllfa unigryw i gynnull BBaChau lleol**, yn enwedig drwy eu Siarteri Gwaith Teg/Cyflogaeth Dda, ac am eu bod yn deall eu heriau lleol ac yn teilwra cymorth o ran cyflogaeth a sgiliau yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae **10 Awdurdod Maerol/Strategol yn gweithio gyda ni** (ceir rhagor o fanylion yn yr atodiad).

Yn ystod y Cyfnod Blaengar, yr arweinwyr rhanbarthol fydd yn gyfrifol am gynnull eu BBaChau lleol i ddarparu mewnbwn a gwybodaeth ranbarthol. Bydd BBaChau yn hollbwysig er mwyn deall y sefyllfa sylfaenol mewn perthynas â'r tri chanlyniad (llai o absenoldebau, cyfraddau dychwelyd i'r gwaith gwell a chyfraddau cyfranogi a chadw uwch o ran pobl anabl) a rhannu enghreifftiau o arferion da i ddangos sut maent yn sicrhau canlyniadau gwell. Rhaid i'n hatebion weithio i gyflogwyr bach a mawr, a bydd y gwaith rhanbarthol yn profi'r dulliau gweithredu gyda chyflogwyr llai mewn gwahanol rannau o'r wlad.

#### Enghraifft o Ymgysylltiad Rhanbarthol

Erbyn diwedd mis Ebrill, byddwn wedi cynnal y gyfres gyntaf o weithdai i gyflogwyr ar draws Awdurdodau Cyfun Maerol Manceinion Fwyaf, Dinas-Ranbarth Lerpwl, Gorllewin Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a De Swydd Efrog a thrwy'r gweithdai hyn, rydym yn disgwyl y byddwn wedi ymgysylltu ag oddeutu 150 o gyflogwyr lleol, gan ganolbwyntio'n benodol ar BBaChau, a fydd yn dod ynghyd ym mhob digwyddiad i gasglu arferion da ar draws tri o bum cam y cylch bywyd iach (atal, aros yn y gwaith, dychwelyd i'r gwaith) a deall pa ran o'r cylch bywyd yr hoffai'r Awdurdodau Cyfun Maerol ganolbwyntio arni fel grŵp.

Drwy'r gweithdai hyn rydym yn ategu gwaith y sbrintiau dan arweiniad cyflogwyr a'r gwaith ymgysylltu â darparwyr drwy gyflwyno ffocws a llais BBaChau ac economïau rhanbarthol. Caiff y rhain eu bwydo i mewn i gylchoedd y Sbrintiau Cylch Bywyd Gwaith Iach a drafftiau cynnar y safon enghreifftiol a byddwn hefyd yn ystyried systemau darparu lleol a sut y gellir eu datblygu.

### Rôl Llywodraethau Datganoledig

Rydym wrthi'n ymgysylltu â rhanddeiliaid a llywodraeth ar draws y Llywodraethau Datganoledig (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) i sicrhau bod ein dulliau gweithredu mewn perthynas ag iechyd a chynhwysiant yn y gweithle yn gynhwysol, yn berthnasol yn lleol, ac yn ymateb i fentrau ac amodau economaidd rhanbarthol. Rydym wedi gweld llawer o enghreifftiau o arferion da yn y cenhedloedd hyn ac rydym am sicrhau bod cam nesaf ein gwaith yn adeiladu ar y rhain ac yn datblygu atebion ar draws y DU gyfan.

Mae'r ymgysylltiad hwn yn hollbwysig er mwyn teilwra cymorth i anghenion unigryw cymunedau busnes a gweithluoedd pob gwlad. Un o brif ffocysau ein gwaith gyda'r Llywodraethau Datganoledig fu'r dimensiwn BBaChau, gan gydnabod mai mentrau bach a chanolig yw asgwrn cefn economïau rhanbarthol ledled y DU. Rydym yn gweithio'n agos gydag arweinwyr busnes, rhwydweithiau busnes, awdurdodau lleol, ac adrannau o fewn y llywodraethau datganoledig i ystyried a datblygu modelau darparu rhanbarthol a seiliedig ar le.

### Enghraifft o Waith Ymgysylltu sydd i Ddod

<table>
<tr><th>Llywodraethau Datganoledig</th><th>Gweithgarwch sydd i ddod</th></tr>
<tr><td>Yr Alban</td><td>Mewn partneriaeth â Public Health Scotland, ym mis Mawrth, gwnaethom gynnal gweithdy i gyflogwyr gan ddod â grŵp amrywiol o fwy na 50 o gyflogwyr a chyrff cynrychiadol o'r Alban ynghyd i hyrwyddo camau sy'n gwella iechyd yn y gweithle ac yn cefnogi nodau iechyd a gwaith teg yr Alban.<br><br>Gan adeiladu ar y momentwm o arolygon a sesiynau bord gron diweddar, nod y sesiwn oedd ymgysylltu ag ystod ehangach o gyflogwyr mewn sectorau amrywiol i annog camau ymarferol sydd o fudd i gyflogeion ac iechyd cenedlaethol. Roedd y digwyddiad hefyd yn gydnaws â pholisïau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Iechyd a Gwaith a Chyfnod Blaengar Cadw Prydain i Weithio yn yr Alban.</td></tr>
<tr><td>Gogledd Iwerddon</td><td rowspan="2">Fel y digwyddiad yn yr Alban, byddwn yn trefnu sesiynau tebyg yng Nghymru a Gogledd Iwerddon drwy gydol y gwanwyn. Diben y sesiynau hyn fydd llywio rôl y genedl ddatganoledig wrth roi argymhellion Cadw Prydain i Weithio ar waith a sefydlu sut mae'r argymhellion hynny yn cyd-fynd â materion datganoledig. Yn debyg i'n gwaith ymgysylltu yn y Rhanbarthau Maerol, bydd y Llywodraethau Datganoledig hefyd yn cynnull eu BBaChau i gefnogi'r broses weithredu.</td></tr>
<tr><td>Cymru</td></tr>
</table>

### Ymgysylltu ehangach

Mae sawl agwedd arall ar waith ymgysylltu a fydd yn ffurfio rhan hanfodol o ddull gweithredu'r Cyfnod Blaengar. Byddwn yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn rhwng y sbrintiau â chyflogwyr, i gasglu adborth a safbwyntiau ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu, yn ogystal â sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau allweddol yn cael eu hystyried. Bydd y grwpiau hyn yn cynnwys

- **Undebau**: Mae undebau'n chwarae rôl hollbwysig yn y gweithle, gan gynrychioli a chefnogi cyflogeion. Wrth weithio i ddatblygu'r mentrau a datblygu consensws dros ddiwygio arferion yn y gweithle mewn perthynas â gwaith ac iechyd, byddwn yn gweithio'n agos gydag undebau gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan flaenllaw yn y Cyfnod Blaengar.
- **Cyflogeion a phrofiadau bywyd**: Bydd profiad cyflogeion, yn enwedig cyflogeion â chyflyrau iechyd neu amhariadau, yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y safon a'r ddarpariaeth yn arwain at newidiadau effeithiol i iechyd a chynhwysiant yn y gweithle. Rydym yn ystyried sut i gynnwys llais y cyflogai yn ogystal â phrofiadau bywyd i gefnogi gwaith y Cyfnod Blaengar.

- **Clinigwyr a meddygon teulu**: Bydd deall effaith newidiadau i'r ddarpariaeth iechyd yn y gweithle a'r rhyngweithio â'r system iechyd yn hollbwysig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid clinigol a'r Colegau Brenhinol i sicrhau ein bod yn deall goblygiadau, risgiau a chyfleoedd cynigion.
- **Arbenigwyr ac ymchwilwyr**: Mae ystod eang o sefydliadau academaidd ac arbenigol rhagorol yn gweithio yn y maes hwn, gan ddatblygu tystiolaeth a gwybodaeth ynghylch gwaith ac iechyd. Ein huchelgais yw ehangu'r ymdrechion hyn a gweithio gyda nhw yn hytrach na cheisio eu hefelychu neu'u disodli. Bydd sefydliadau ymchwil yn rhan allweddol o'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid y byddwn yn ei wneud yn ystod y Cyfnod Blaengar i sicrhau ein bod yn adeiladu o arbenigedd a gydag arbenigedd yn y maes cymhleth hwn.

## Llywodraethu'r Cyfnod Blaengar

Mae cefnogaeth gref i'r gwaith hwn yn y Llywodraeth, gyda **Bwrdd Arwain sy'n cynnwys pedwar cyd-gadeirydd** (**Y Gwir Anrhydeddus Pat McFadden, Y Gwir Anrhydeddus Peter Kyle, Y Gwir Anrhydeddus Wes Streeting a Syr Charlie Mayfield**) yn ogystal ag uwch-arweinwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Fusnes a Masnach a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd y bwrdd hwn yn arwain y rhaglen mewn ffordd drawslywodraethol strategol a'r bwrdd hwn fydd â'r atebolrwydd terfynol a'r **awdurdod gwneud penderfyniadau** ar gyfer rhoi'r argymhellion ar waith a'r canlyniadau a gyflawnir a'r cynhyrchion a gyflenwir o ganlyniad i hynny.

Caiff y Bwrdd Arwain ei gefnogi gan **Grŵp Cynghori Allanol** yr ymgynghorir ag ef ac a fydd yn gweithredu fel fforwm arbenigol allanol, gan ddarparu gwybodaeth a her o safbwyntiau amrywiol. Bydd y grŵp hwn yn datblygu syniadau a chynigion ond ni fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau. Caiff aelodau'r grŵp cynghori eu nodi yn yr atodiad.

## Cymryd Rhan

Os hoffech ddysgu mwy am y Cyfnod Blaengar neu os hoffech gofrestru eich sefydliad fel Blaengarwr, hoffem glywed gennych.

Rydym yn croesawu cyflogwyr o bob maint, darparwyr gofal iechyd, Rhanbarthau a sefydliadau o bob sector sy'n cydnabod nad yw'r system bresennol yn gweithio ac sy'n barod i helpu i adeiladu rhywbeth gwell.

P'un a ydych yn gyflogwr mawr, yn BBaCh uchelgeisiol, yn ymddiriedolaeth GIG, yn ddarparwr preifat, neu'n arweinydd awdurdod lleol, mae lle i chi yn y mudiad hwn.

I ddysgu mwy neu i gofrestru eich diddordeb mewn dod yn Flaengarwr, cysylltwch â'n tîm yn kbw.vanguards@dwp.gov.uk.

**Gyda'n gilydd, rydym yn gwneud mwy na chynllunio newid, rydym yn rhoi'r newid hwnnw ar waith.**

# Atodiad

## Rhestr o sefydliadau blaengar

Y rhestr ddiweddaraf o sefydliadau sydd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda ni yn ystod y Cyfnod Blaengar:

### Sefydliadau

3-1-5 Health Club
A&M EDM
ARKIVE by Adam Reed
Aquame
Cymdeithas Yswirwyr Prydain
Aviva
AXA Health
Busnes yn y Gymuned
Ymddiriedolaeth GIG Barts Health
BP
British Airways
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
BT Group
Bupa UK
Burger King
ByteDance
Canada Life
Canary Wharf Group
Capita
Career Returners
Cydweithfa Cartrefi Cymru
CBI
Centrica
Change Grow Live
Channel 4
Chrysalis Courses
Google UK
GXO Logistics Solutions
Haleon
Health 2 Employment
HealthHero
Health Partners Group
Health Shield
Herriot Hospice Homecare
Holland & Barrett
Hospitality Action
HR Support 4U
Hussle
Independent Healthcare Providers Network
Ingeus
Insurance at Heart
J Sainsburys
Jaguar Land Rover
John Lewis Partnership
Journey Enterprises
Kore Sandwell
Latus Group
Legal & General Group
Prifysgol Loughborough
LSN Diffusion
Marks and Spencer
Maximus UK
Places Leisure
Swyddfa’r Post
PreCure ApS
Psychiatry UK
Pure Gym
PwC UK
Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd
Renew Beauty
Retail Trust
Rethink Mental Illness
Rio Tinto
Y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd
Rolls-Royce
Seddon
Serco
Severn Trent Water
Sick in the City (SIC)
Siemens
Simplyhealth Group
Sky UK
Sopra Steria
Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Prifysgol De Swydd Warwick
Spire Healthcare
Square Health
TELUS Health
Tesco

Coca-Cola Europacific Partners

COOK Food

Cora Health

Cosy Direct

Ystad y Goron

Currys

Dene Healthcare

Yr Adran Fusnes a Masnach

Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Disability Action (Northern Ireland)

East Midlands Railway (EMR)

EDF Energy

Endometriosis UK

Enginuity

Epilepsy Action

Evenbreak

EY UK

Fedcap

Ford UK

Future Fit

Genius Within

Goodshape

Mind Matters Counselling LLP

Moneypenny

Motionspot

Nando's

Y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol

Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

Ymddiriedolaeth GIG Caer a'r Wirral

Bwrdd Gofal Integredig y GIG Manceinion Fwyaf

Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Gofal Iechyd Northumbria

Northern Trains Limited

Nuffield Health

One Medical Group

Onebright

Optima Health

PAM Wellness

Parachute

Passion4Social

Patchwork Hub

Pathways CIC

People Partner 4U

Peppy Health

PepsiCo UK

The Phoenix Group

The Anti Burnout Club

The Busy Group

Sefydliad Rheolaeth Siartredig

The Gym Group

The Human Centre

The Ink Group

The Migraine Trust

Thrivall

Transport for London

Trafnidiaeth Cymru

Coleg Truro a Penwith

UKHospitality

Prifysgol Caergrawnt

Unum

Vercida

Vitality

Vivam Health

Coleg Waltham Forest

Wellhub

WiseCorp

Working to Wellbeing

WPA

Zurich UK

Mae'r rhestr ddiweddaraf o **ranbarthau Blaengar** fel a ganlyn:

**Rhanbarthau**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cernyw | Awdurdod Maerol Cyfun Gogledd-ddwyrain Lloegr |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | Awdurdod Maerol Cyfun De Swydd Efrog |
| Awdurdod Llundain Fwyaf | Awdurdod Maerol Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| Manceinion Fwyaf | Awdurdod Maerol Cyfun Gorllewin Lloegr |
| Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl | Awdurdod Maerol Cyfun Gorllewin Swydd Efrog |

D.S. Nid yw rhaglen Cadw Prydain i Weithio yn cymeradwyo unrhyw gynhyrchion neu wasanaethau penodol. Mae'n gweithio gydag ystod amrywiol o sefydliadau i ddatblygu'r anghenion a'r gofynion i lywio arferion gwaith ac iechyd yn y dyfodol.

## Aelodau'r Grŵp Cynghori

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Yr Athro Iain Buchan | Prifysgol Lerpwl |
| Joanne Cairns | Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (USDAW) |
| Dr Robin Cordell | Y Gyfadran Meddygaeth Alwedigaethol |
| Joe Donnelly | UNSAIN |
| Henrietta Frater | Ystad y Goron |
| Anne Hayes | Sefydliad Safonau Prydeinig |
| Yr Athro Kamila Hawthorne MBE | Prifysgol Abertawe; Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol |
| Dr Sarah Hughes | Mind |
| Yr Athro Ewan MacDonald OBE | Prifysgol Glasgow |
| Kate Nash OBE | PurpleSpace |
| Deborah Rees | LSN Diffusion Ltd |
| Paul Schreier | Simplyhealth |
| Valerie Todd CBE | Digital Catapult; Leonard Cheshire; Great British Energy |
| Kirsty Watt | Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (Acas) |
| Sara Weller CBE | BT; Lloyds Banking Group plc; United Utilities; Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau |